MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

# Asesiad manwl ar gyfer
# Heol Twynyrodyn
# Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
# Crynodeb Gweithredol – Cymraeg

O ran cyflawni Rhan IV
Deddf yr Amgylchedd 1995
Rheoli Ansawdd Aer Lleol

Dyddiad: (16 Tachwedd 2015)

**Crynodeb Gweithredol**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn monitro ac yn asesu ansawdd aer yn rheolaidd. Wrth gyflawni'r monitro hwn arsylwyd bod $NO_2$ yn Heol Twynyrodyn yn fwy na'r nod blynyddol. Diben yr asesiad manwl hwn oedd ymchwilio ymhellach i'r rhagori hwn ar y nod.

Cafodd monitro $NO_2$ amser real a thiwbiau tryledu eu defnyddio i bennu crynodiadau $NO_2$ tymor byr, misol a blynyddol. Ymchwiliwyd hefyd i ddata meteoroleg a data traffig. Caiff traffig ei ystyried fel prif ffynhonnell $NO_2$ ar Heol Twynyrodyn. Ystyrir hefyd bod cyfeiriad a chyflymder y gwynt, ynghyd â dau adeilad agos at y pafin ar bob ochr i'r ffordd yn debygol o beri i $NO_2$ grynhoi o gwmpas 55 Heol Twynyrodyn.

Canfuwyd bod crynodiadau $NO_2$ amser real ar eu huchaf pan oedd lefelau sylweddol o draffig yn symud i fyny'r allt. Credir bod hyn yn gysylltiedig â'r cyfeiriad yr anogir cymudwyr ac ymwelwyr â chanol y dref a Tesco i ymadael, yn enwedig o ganlyniad i newidiadau diweddar i osodiad y ffordd a threfniadau parcio yng nghanol y dref.

Caiff ei ystyried yn angenrheidiol i ddatgan AQMA o Ben Gorllewinol Heol Twynyrodyn i 147 Gilfach Cynon. Bydd CBSMT wedyn yn cynhyrchu cynllun gweithredu, sy'n anelu at leihau crynodiadau $NO_2$. Gan fod $NO_2$ yn gysylltiedig ag allyriadau traffig, bydd datrysiadau'n cael eu cyflawni i ostwng cyflymder a gwella llif y traffig a lleihau faint o draffig sydd.